

# Cludiant Anghenion Addysgol Arbennig



# COD YMDDYGIAD



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



	Tudalen
Ein Hymrwymiad .....	04-05
Cod Ymddygiad Rhieni .....	06-07
Cod Ymddygiad Gweithredwyr Cludiant .....	08-10
Cod Ymddygiad Gyrrwyr a Chynorthwywyr Teithwyr .....	11-14
Gweithdrefnau ar gyfer argyfwng/digwyddiadau .....	15-17
Cyfrifoldebau Ysgolion/Colegau .....	18-19
Noddiad .....	20

# Ein hymrwymiad

Mae'r cyngor yn darparu cludiant i deithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol neu'r coleg os oes ganddo gyfrifoldeb statudol dros wneud hynny ar ran disgyblion/myfyrwyr fel y pennir gan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru).

Darperir cludiant yn y modd mwyaf cost effeithlon gan ystyried anghenion y plentyn. Ni ddylai'r cludiant achosi straen, tyndra nac anhawster amhriodol a fyddai'n atal disgybl/myfyriwr rhag elwa ar yr addysg sydd ar gael. Dylai fod disgyblion/myfyrwyr yn gallu teithio yn ddiogel ac yn rhesymol o gysurus.

Dyma ein hymrwymiad:

- Bydd rhieni, contractwyr ac ysgolion/colegau yn gallu cael gafael ar staff cludiant i'r ysgol yn ystod oriau swyddfa arferol.
- Bydd cludiant fel arfer yn cael ei threfnu cyn pen 15 diwrnod gwaith o gael cais a gymeradwywyd. Os oes anghenion penodol iawn am staff wedi'u hyfforddi'n arbennig, cerbydau wedi'u haddasu neu gyfarpar, efallai bydd yn cymryd mwy o amser i drefnu cludiant i sicrhau diogelwch y plentyn. Yn y cyfamser, bydd trefniadau eraill yn cael eu gwneud.
- Bydd y cyngor yn sicrhau bod unrhyw gyfarpar sydd ei angen ar gyfer cludiant diogel e.e. sedd plentyn, yn cael ei ddarparu naill ai gan y cyngor, rhieni neu'r gweithredwr, fel sy'n briodol.
- Bydd llwybrau'n cael eu cynllunio i gadw siwrneiau mor fyr â phosibl ble bynnag y mae modd, cyn belled ag y gallwn ddarparu gwasanaeth effeithlon a chost effeithiol. Os oes angen gwneud newidiadau i lwybrau, byddwn yn ysgrifennu at y rhieni a'r ysgolion i roi gwybod iddynt am y newidiadau fel bod modd paratoi'r plant. Byddwn hefyd yn gofyn i yrwyr/cynorthwywyr teithwyr gyflwyno eu hunain i'r rhieni/plant cyn i'r cludiant newydd ddechrau.

- Bydd y Cyngor yn hwyluso gwiriadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) er mwyn sicrhau bod gyrwyr a chynorthwyrwyr teithwyr yn addas ar gyfer swydd sy'n cynnwys cludo plant. Bydd staff a gymeradwywyd yn cael cerdyn adnabod a fydd yn cynnwys enw'r unigolyn, llun ohono, logo'r awdurdod lleol a'r dyddiad cyhoeddi.
- Bydd llwybrau a gwasanaethau cludiant i'r ysgol yn cael eu monitro'n rheolaidd. Efallai bydd Teledu Cylch Cyfyng wedi'i osod mewn rhai cerbydau, a gellir defnyddio hwn yn dystiolaeth mewn achosion o gamymddygiad neu gamymddwyn.
- Byddwn yn gweithio gyda chontractwyr, rhieni, disgyblion/myfyrwyr ac ysgolion/ colegau i ddatrys unrhyw broblemau a allai godi ar wasanaethau cludiant i'r ysgol/ coleg cyn gynted â phosibl.
- Bydd y cyngor yn cadw cofnod o'r holl ddigwyddiadau y caiff wybod amdanynt, a bydd yn ymchwilio i bob un ac yn cymryd camau cosbi pellach os yw'n briodol.

## **GWYBODAETH GYSWLLT:**

**Cyngor Sir Penfro – 01437 775222**

**Cyngor Sir Caerfyrddin – 01267 228326**

**Dinas a Sir Abertawe – 01792 636328/636593**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot –  
01639 686657**

**Llenwch manylion eich contractwr ar gyfer argyfwng,  
os gwelwch yn dda.:**

Enw'r Contractwr \_\_\_\_\_

Rhif y Llwybr \_\_\_\_\_

Rhif cyswllt mewn argyfwng i'r gyrrwr/cynorthwyrwyr teithwyr \_\_\_\_\_

# Cod Ymddygiad Rhieni/Gofalwyr

Gall rhieni a gofalwyr helpu i wneud siwrnai eu plentyn mor ddiogel â phosibl:

- Sicrhewch fod gan staff cludiant y Cyngor yr holl wybodaeth berthnasol am eich plentyn, gan gynnwys unrhyw anghenion penodol a gwybodaeth gyswllt mewn argyfwng. Mae'n bwysig ichi roi gwybod i staff cludiant y cyngor ar unwaith am unrhyw newidiadau i'ch amgylchiadau chi, neu amgylchiadau eich plentyn, fel newid cyfeiriad neu newid cyfarpar.
- Byddwch chi'n cael llythyr cyn dechrau'r tymor i ddweud wrthyfch pwy yw'r contractwr sy'n darparu cludiant eich plentyn. Disgwylir i bob contractwr sicrhau bod y gyrrwr a/neu'r cynorthwywyr teithwyr yn cysylltu â chi i gyflwyno eu hunain a darparu eu manylion cyswllt. Byddwch hefyd yn cael gwybod am yr amser casglu a'r amser gollwng bras. Ni ddylai rhieni ofyn i yrwyr/cynorthwywyr teithwyr unigol newid llwybrau, amserau na threfniadau cludiant oherwydd gallai hyn effeithio'n andwyol ar siwrneiau/ diogelwch plant eraill. Os oes angen ichi ofyn am unrhyw newidiadau i gludiant eich plentyn, cysylltwch ag uned gludiant y cyngor.
- Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich plentyn yn barod ar gyfer y cludiant i'r ysgol mewn da bryd yn y bore a chwrdd ag ef/hi oddi ar y cludiant yn y prynhawn. Mae'n rhaid i'r rhieni sicrhau bod oedolyn priodol yno pan fydd eu plentyn yn cyrraedd adref o'r ysgol. Os yw eich plentyn yn cael ei gasglu o rywle heblaw'r cartref, cyfrifoldeb y rhiant/gofalwr yw sicrhau bod y plentyn yn ddiogel wrth deithio yn ôl ac ymlaen i'r man lle mae'n cwrdd â'r bus.
- Dylech sicrhau bod eich plentyn wedi'i wisgo'n briodol i'r siwrnai i'r ysgol/o'r ysgol. Os oes gan eich plentyn feddyginiaeth/gwybodaeth i'r ysgol, sicrhewch ei bod yn cael ei throsglwyddo mewn cynhwysydd dan sêl i'r cynorthwywyr teithwyr/gyrrwr a bod enw eich plentyn wedi'i farcio ar y cynhwysydd.

- Os yw eich plentyn yn sâl neu os nad yw'n gallu mynychu'r ysgol, ffoniwch y contractwr cludiant cyn gynted â phosibl i osgoi oedi disgyblion eraill neu wneud siwrnai ddiangen.
- Mae rhieni a gofalwyr yn gyfrifol am annog ymddygiad da ar gludiant i'r ysgol. Os bydd eich plentyn yn camymddwyn yn fwriadol, mae'n bosibl y bydd camau disgyblu'n cael eu cymryd, gan gynnwys gwrthod cludo. Ni fydd dim plentyn yn cael ei gosbi am ymddygiad sy'n deillio o'i gyflwr penodol, e.e. syndrom Tourette.
- Os ydych yn poeni am gludiant eich plentyn neu os oes angen ichi roi gwybod am ddigwyddiad, gwnewch hynny cyn gynted â phosibl gan roi cymaint o wybodaeth â phosibl, gan gynnwys y dyddiad a rhif y llwybr, i uned gludiant y cyngor.

# Cod Ymddygiad y Gweithredwyr Cludiant

Mae gweithredwyr cludiant yn gyfrifol am ddarparu cludiant yn ddiogel yn unol â'r Amodau Contract ac unrhyw bolisi rheoli traffig perthnasol sydd gan yr ysgol/coleg. Os na fyddant yn cydymffurfio â'r rhain, efallai bydd tâl yn cael ei ddidynnu a/neu'r contract yn cael ei derfynu.

## Cyflogeion:

- Mae pob awdurdod yn cynnig hyfforddiant o bryd i'w gilydd i staff cludiant ysgol. Sicrhewch fod eich staff yn gwybod am unrhyw hyfforddiant sydd ar gael, ac yn manteisio arno..
- Dim ond y staff y cytunwyd arnynt / y staff a gymeradwywyd y dylech eu defnyddio ar lwybrau cludiant i'r ysgol. Os na fydd aelod o staff a gymeradwywyd ar gael e.e. oherwydd salwch, dylech roi gwybod ar unwaith i'r cyngor er mwyn cytuno ar drefniadau eraill.
- Dylai pob cyflogai fod wedi gwisgo'n briodol ac arddangos ei brawf adnabod â llun bob amser tra bydd ar gludiant ysgol.
- Dylai gyrwyr a cynorthwywyr teithwyr gynnal agwedd broffesiynol a chwrtais at staff ysgol, rhieni a disgyblion/myfyrwyr drwy'r amser. Mae hyn yn cynnwys defnyddio iaith briodol a pharchu cyfrinachedd y disgyblion.
- Dylai gyrwyr a cynorthwywyr teithwyr fod yn gyfarwydd â'r llwybr, y manau casglu a'r safleoedd ysgol a dylent fod wedi cyflwyno eu hunain i'r rhieni/disgyblion/myfyrwyr cyn dechrau'r contract.
- Dylid gweithredu'r llwybrau fel y nodir yn y contract. Ni ddylid gwneud newidiadau fel newid amserau casglu, manau casglu etc na chludo plant eraill, oni chytunwyd ar hynny â staff cludiant y cyngor.

- Dylai staff sy'n darparu cludiant ysgol i blant ag anghenion arbennig fod yn gymwys mewn defnyddio'r holl gyfarpar perthnasol gan gynnwys rampiau, lifftiau, gwregysau diogelwch, harneisiau a systemau diogelu cadeiriau olwyn a'r rhai sy'n eistedd ynddynt. Cyfrifoldeb y contractwyr yw sicrhau bod yr holl staff perthnasol wedi cael digon o hyfforddiant. Os ydych yn ansicr o gwbl pa gyfarpar sydd ei angen neu sut y dylid ei ddefnyddio, dylech gysylltu â'r cyngor a fydd yn fodlon rhoi cymorth/cefnogaeth. Mae diogelwch y plant yn holl bwysig ac os oes unrhyw aelod o staff yn ansicr, cysylltwch ag uned gludiant y cyngor.
- Dylai fod gan y gyrrwyr/cynorthwywyr teithwyr fanylion cyswllt mewn argyfwng ar gyfer y contractwr, yr awdurdod lleol, yr ysgol a'r disgyblion yn y cerbyd. Dylent hefyd fod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os bydd argyfwng gan gynnwys salwch, damwain neu dorri i lawr.

## Cerbydau:

- Dylai'r contract gael ei weithredu'n unol â'r fanyleb h.y. maint/math priodol o gerbyd. Os nad oes cerbyd addas ar gael gan iddo dorri i lawr etc, dylech roi gwybod i'r awdurdod ar unwaith.
- Dylid cadw'r cerbydau a'r cyfarpar yn lân, ac archwilio'r cyfarpar yn rheolaidd i sicrhau nad yw wedi cael ei ddifrodi.
- Dylai'r cerbydau sy'n gweithredu contractau cludiant i'r ysgol arddangos rhif y llwybr a dylai fod ynddynt naill ai ffôn symudol neu gyswllt radio â'u canolfan.



## Cyswllt ag ysgolion/ colegau:

- Dylai'r contractwyr gadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r ysgol/coleg yn ystod y flwyddyn ysgol.
- Mae gan lawer o ysgolion/unedau arbennig drefniadau ar gyfer trosglwyddo disgyblion, parcio, a throsglwyddo eiddo/meddyginiaeth/gwybodaeth y disgyblion/myfyrwyr. Dylai'r contractwyr sicrhau eu bod yn cadw at bolisiâu'r ysgolion ble bynnag y mae modd.

# Cod Ymddygiad Gyrwyr a Chynorthwywyr Teithwyr

Mae cynorthwywyr teithwyr a gyrwyr yn bobl allweddol o ran sicrhau cludiant diogel a chyffyrddus i bobl ifanc, yn enwedig y rheini ag anghenion arbennig. Mae'r siwrnai ysgol yn arbennig o bwysig i lawer o bobl ifanc ag anghenion arbennig (a'u rhieni) ac yn rhan annatod o'r diwrnod ysgol.

Mae'r cyngor yn disgwyl llawer iawn o broffesiynoliaeth oddi wrth y gyrwyr a'r cynorthwywyr teithwyr. Dylai gyrwyr a chynorthwywyr teithwyr barchu cyfrinachedd gwybodaeth am ddisgyblion a'u teuluoedd.

## **Cyngor cyffredinol ar weithio gyda phlant**

Chi yw'r unigolyn/unigolion sy'n gyfrifol am ddiogelwch a chysur/lles y plentyn drwy'r amser ar y cerbyd.

- Dylech osgoi cysylltiad corfforol â'r plant oni bai bod angen hwnnw i sicrhau bod plentyn yn ddiogel.
- Defnyddiwch iaith briodol – dylai'r iaith hon fod yn briodol i oedran ac ni ddylai gynnwys rhegfeydd. Bydd llawer o'r disgyblion yn cael anhawster o ran cyfathrebu ac efallai bydd angen ichi siarad yn araf ac yn glir a sicrhau eich bod yn wynebu'r plentyn.
- Peidiwch â thrafod materion o natur amhriodol â'r plant, fel alcohol, cyffuriau, rhyw, neu faterion personol.
- Cofiwch drin pob disgybl yn gyfartal ac yn gyson. Bob cyfle bosibl, dilynwch gyngor yr ysgol (a chyngor y rhieni) ar reoli ymddygiad disgybl.

- Cofiwch osgoi gwrthdaro ond sicrhewch fod yr ysgol/rhiant a'r staff cludiant yn cael gwybod am unrhyw achosion o fwlio, neu drais/ymddygiad amhriodol er mwyn ymdrin â'r achosion hyn.
- Peidiwch â bwyta, yfed nac ysmygu yn y cerbyd nac ar bwys y cerbyd nac ar safle ysgol.
- Sicrhewch eich bod yn cadw ffiniau clir. Er ei bod yn hanfodol ichi ddatblygu perthynas dda â'ch teithwyr/cydweithwyr (a'r rhieni) efallai bydd angen gwneud newidiadau i lwybrau a/neu staff. Mae perthynas sy'n rhy gyfeillgar yn gallu gwneud newidiadau fel hyn yn anodd i bawb, ac mae perthynas amhriodol yn gallu golygu bod perygl honiadau yn erbyn staff.

## Cyn y siwrnai

- Cyn dechrau'r tymor/blwyddyn ysgol dylech fod wedi cyflwyno eich hun i'r rhieni a'r bobl ifanc ar eich llwybr. Mae hwn yn gyfle iddynt ddod i'ch adnabod chi, a hefyd ichi gael gwybod am unrhyw anghenion neu bryderon penodol am y plentyn. Sicrhewch fod gennych y manylion cyswllt diweddaraf a manylion cyswllt mewn argyfwng ar gyfer pob plentyn a'ch bod yn cadw'r rhain gyda chi bob dydd ar y cerbyd.
- Sicrhewch eich bod yn ymwybodol o weithdrefnau'r cwmni ar gyfer ymdrin â damweiniau, torri i lawr, tywydd garw, salwch etc.
- Cofiwch wisgo'n addas a gwisgo eich bathodyn adnabod.
- Sicrhewch fod gennych ffôn symudol, neu radio dwyffordd a bod gennych y rhifau argyfwng sydd eu hangen arnoch (e.e. wedi'u gosod ymlaen llaw ar y ffôn). Mae llyfr nodiadau/pen, hancesi papur a hancesi gwlyb yn debygol o fod yn ddefnyddiol hefyd.

- Sicrhewch fod y cyfarpar diogelwch cywir ar y cerbyd cyn iddo adael e.e. clustogau hybu, seddi plant cywir etc a bod y rhain yn lân, yn ddiddifrod ac wedi'u gosod yn gywir.

## Yn ystod y siwrnai

- Dylech gyrraedd y safle/y man casglu ar yr amser dynodedig. Os na fydd plentyn yn barod, ni ddylech aros mwy na 5 munud. Defnyddiwch y goleuadau rhybuddio perygl tra bydd y disgyblion yn dringo i'r bws neu'n gadael y bws.
- Eich cyfrifoldeb chi yw diogelwch y teithwyr – sicrhewch fod drysau'r cerbyd ar gau oni bai bod y cerbyd yn sefyll yn stond. Ni ddylai'r plant weithredu drysau ac, os nad oes modd osgoi croesi'r ffordd wrth ollwng teithiwr, dylid goruchwyllo'r teithiwr dros y ffordd.
- Sicrhewch fod y teithwyr (ac unrhyw fagiau neu gyfarpar) wedi'u diogelu'n briodol cyn i'r cerbyd symud, a bod y teithwyr yn gyffyrddus e.e. nid yn rhy boeth nac yn rhy oer. Dylai'r cynorthwywyr teithiwr a'r gyrwyr fod yn gwisgo eu gwregysau diogelwch hefyd.
- Dylid gyrru cerbydau'n ofalus ac yn unol â Rheolau'r Ffordd Fawr. Ni ddylai gyrwyr ddefnyddio ffonau symudol oni bai eu bod yn ffonau llawrydd.
- Dylai'r cynorthwywyr teithwyr eistedd lle gallant orau oruchwyllo'r plant yn ystod y siwrnai a siarad â hwy. Mae gan lawer o blant siwrneiau hir ac mae angen tawelu eu meddyliau drwy allu cyfathrebu â'r cynorthwywyr teithiwr.

## Ar ddiwedd y siwrnai

- Pryd bynnag y mae modd, cyrhaeddwch yn yr ysgol neu'r man gollwng ar yr amser y cytunwyd arno. Os nad yw'n bosibl cadw at eich amserlen, er enghraifft oherwydd gwaith ffordd hirdymor, rhowch wybod i uned gludiant y cyngor. Peidiwch â newid amserau casglu nac amserau gollwng heb i staff cludiant y cyngor gytuno i hynny.
- Dilynwch gyfarwyddiadau'r ysgol/coleg ynghylch trefniadau i gasglu disgyblion o'r ysgol a'u gollwng yno. Mae ardaloedd parcio ceir yn brin mewn llawer o ysgolion ac mae llawer o dagfeydd felly maent yn gwerthfawrogi gyrrwyr yn helpu i leddfu hyn cymaint â phosibl.
- Sicrhewch fod plant yn cael eu trosglwyddo naill ai i aelod o staff yr ysgol neu riant/gofalwr. Sicrhewch fod meddyginiaeth/gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n briodol.
- Sicrhewch nad yw'r disgyblion wedi gadael eiddo/cyfarpar/bagiau etc ar y cerbyd, a sicrhewch nad ydynt yn rhedeg yn ôl i'w cael. Dylid trosglwyddo unrhyw eiddo coll i'r ysgol neu, os ydych yn gwybod i bwy mae'n perthyn, i'r perchennog ar y siwrnai nesaf.

## Rhieni absennol

Os nad yw rhiant neu oedolyn y cytunwyd arno ar gael i gwrdd â'r plentyn yn y man gollwng, dylech:

1. Ffonio uned cludiant y cyngor a fydd yn ceisio wedyn cysylltu â'r rhiant
2. Parhau i weithredu'r gwasanaeth i sicrhau nad yw'r plant eraill yn hwyr ac arhoswch am cyfarwyddion pellach
3. Dychwelyd i'ch depo a bydd y cyngor yn trefnu bod y rhiant yn casglu'r plentyn oddi yno
4. Os nad oes modd cysylltu â'r rhieni, bydd y contractwyr yn cael rhif cyswllt y Swyddog ar Ddyletswydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i wneud trefniadau i'r plentyn

## Pryderon eraill am les plentyn

Os digwydd yn barhaus nad yw plentyn yn barod i gael ei gasglu, neu os oes gennych unrhyw bryderon eraill am les plentyn, rhowch wybod ar unwaith i staff cludiant y cyngor.

A chithau'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, rydych mewn swydd werthfawr i sicrhau eu diogelwch a chadw llygad am arwyddion o esgeulustod, camdriniaeth neu niwed. Cadwch lygad am:

- Unrhyw arwyddion corfforol o gamdriniaeth neu esgeulustod, a allai gynnwys cleisiau, llosgiadau neu hylendid gwael
- Arwyddion ymddygiadol fel newidiadau i'w hymddygiad – e.e. plentyn sydd fel arfer yn siaradus yn mynd yn dawedog iawn, neu ymddygiad rhywiol dig sy'n amhriodol i oedran
- Plentyn yn dweud rhywbeth sy'n peri gofid i chi

Defnyddiwch y manylion cysylltu isod ar gyfer pob awdurdod.

Cyngor Sir Penfro – Yn ystod oriau swyddf - Tîm Asesu Gofal Plant  
01437 776322/25. Mas o oriau - 08708 509508

Cyngor Sir Gaerfyrddin – Tîm Asesu Llanelli 01554 742322

Tîm Asesu Caerfyrddin/Dinefwr 01558 825485  
Mas o oriau 01558 824283

Dinas a Sir Abertawe – Uned Ysgolion a Llywodraethwyr,  
Y Ganolfan Ddinesig 01792 637148/636537/636551/636550

Grŵp Trafnidiaeth 01792 636079/636330

Gwasanaethau Cymdeithasol 01792 635700

Castell-nedd Port Talbot – Yn ystod oriau swyddfa –  
Man Mynediad Cyffredin 01639 686803  
Mas o oriau – Tîm Dyletswydd Argyfwng 01639 895455

Gallwch hefyd gysylltu ag Uned Diogelwch Cyhoeddus yr Heddlu ar 101 ac os yw plentyn mewn perygl disyfyd mae'n rhaid cysylltu â'r heddlu ar 999. Peidiwch os gwelwch yn dda â thybio y bydd rhywun arall yn rhoi gwybod i'r gwasanaethau perthnasol. Eich dyletswydd gofal chi yw rhoi gwybod am unrhyw bryderon sydd gennych.

Os yw ymddygiad unrhyw oedolyn (gan gynnwys cydweithwyr ac aelodau o'r cyhoedd) tuag at blant a phobl ifanc yn fater o ofid i chi:

- i. Peidiwch â diystyru eich pryderon.
- ii. Peidiwch â mynd i'r afael â'r unigolyn rydych yn pryderu yn ei gylch.
- iii. Os yw'n unigolyn sydd â chyfrifoldeb proffesiynol dros blant a phobl ifanc trafodwch eich pryderon gyda rheolwr llinell yr unigolyn hwnnw. Os ydych yn teimlo bod hyn yn amhriodol, neu os nad ydych yn fodlon â'r ymateb a gawsoch, cysylltwch â'r unigolyn perthnasol yn eich Cwmni neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'n bwysig iawn nad ydych yn anwybyddu nac yn diystyru eich amheumon. I Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw ffiniau proffesiynol clir rhyngoch chi â'r disgyblion/myfyrwyr rydych yn eu cludo.

## Tywydd garw

Fel pob modurwr, mae disgwyl i gontractwyr a gyrwyr sicrhau bod eu cerbydau'n barod i dywydd y gaeaf, gan sicrhau y cânt eu cynnal a'u cadw'n ddigon da, a bod digon o danwydd ynddynt etc.

Yn ystod tywydd garw, y gyrrwr sy'n penderfynu, ar y cyd â'r cyngor, a fyddwch chi'n gweithredu gwasanaeth cludiant i'r ysgol neu beidio. Os cytunir na fydd llwybr yn gweithredu, cysylltwch â'r rhieni a'r ysgol cyn gynted â phosibl.

Os ydych eisoed yn gweithredu llwybr a bod y tywydd yn gwaethygu, eto cysylltwch â'r uned gludiant a all ail-flaenoriaethu graeanu neu ddarparu cerbydau gyriant pedair olwyn os oes angen. Ble bynnag y mae modd, rhowch wybod i'r ysgol/rhieni.

Ni ddylid caniatáu i'r disgyblion adael y cerbyd na'u gadael ar gerbyd heb gwmni.

## Camdriniaeth gan rieni/gofalwyr

Mae mwyafrif helaeth y rhieni/gofalwyr yn gefnogol a byddant yn awyddus i weithio gyda gyrwyr a cynorthwywyr teithwyr i sicrhau gwasanaeth cludiant i'r ysgol da. Fodd bynnag, ar adegau efallai bydd rhieni neu oedolion eraill yn ymosodol neu'n ymddwyn mewn modd annerbyniol. Os bydd rhiant yn ymosodol neu'n gwneud honiadau, peidiwch â cheisio dal pen rheswm ag ef, ond eglurwch y dylai gysylltu ag uned gludiant y cyngor a chwyno mewn llythyr.

Rhowch wybod am unrhyw ymddygiad annerbyniol tuag atoch. Dylai'r holl staff cludiant i'r ysgol ddisgwyl gallu gwneud eu gwaith heb ofn na bygythiad a bydd y cyngor yn eich cefnogi chi.



## Camymddygiad

Os oes modd, dylid rheoli camymddygiad plant er enghraifft sicrhau bod rhieni/disgyblion yn gwybod beth a ddisgwylir, drwy wobrwyo ymddygiad da, gosod disgyblion i eistedd lle gellir eu goruchwyllo'n briodol; mae'r pethau hyn i gyd yn gallu helpu.

Fodd bynnag, os oes unrhyw achosion o gamymddygiad, rhwch wybod i'r ysgol amdanynt ar unwaith pan fyddwch yn cyrraedd os bydd hyn yn digwydd yn ystod siwrnai'r bore. Ni ddylid gwrthod cludo plentyn na thynnu plentyn oddi ar gerbyd, o dan unrhyw amgylchiadau. Os yw sefyllfa mor ddifrifol nes ichi fod yn poeni am ddiogelwch disgyblion neu ddiogelwch aelod o staff, dylid cysylltu â'r heddlu.

## Salwch/afiechyd

Bydd anghenion cymhleth gan lawer o blant ag anghenion arbennig, ac o bryd i'w gilydd efallai byddant yn sâl ar siwrnai i'r ysgol neu o'r ysgol. Dylai cynorthwywyr teithwyr a gyrwyr sicrhau eu bod yn gwybod am anghenion tebygol eu teithwyr a'r pethau a allai ysgogi adwaith fel alergedd i gnau etc. Os yw plentyn yn ddifrifol o sâl ar siwrnai i'r ysgol neu o'r ysgol, caiff y gyrrwr:

- Ffonio 999 am gymorth parafeddyg. Bydd angen i yrwyr sicrhau bod ganddynt eu hunion leoliad, eu manylion cyswllt, a gwybodaeth am y plentyn wrth law; neu
- Ddychwelyd naill ai i gartref y plentyn neu i'r ysgol os yw hynny'n fwy priodol.
- Tawelu meddyliau'r teithwyr eraill a sicrhau eu bod yn ddiogel.

Ym mhob achos, dylid cysylltu â staff cludiant y cyngor cyn gynted ag sy'n ymarferol fel y gellir rhoi gwybod i'r rhieni eraill y bydd eu plentyn yn hwyr, a rhoi gwybod i'r ysgol a threfnu cludiant arall i'r teithwyr eraill.

- Mae gan ysgolion ran allweddol i'w chwarae, yn enwedig mewn cludiant i ddisgyblion ag anghenion arbennig. Mae'n ddefnyddiol enwi aelod o staff i fod yn brif gyswllt â'r gweithredwyr a'r awdurdod lleol ynghylch yr holl drefniadau cludiant.
- Sicrhewch fod gan staff cludiant y cyngor unrhyw wybodaeth berthnasol am anghenion disgyblion a'u galluoedd cludiant – yn enwedig pan fydd y rhain yn newid.
- Rhowch wybod i uned gludiant y cyngor am ddiwrnodau HMS arfaethedig a diwrnodau cau'r ysgol cyn dechrau blwyddyn academaidd, neu cyn gynted â phosibl er mwyn peidio â mynd i wariant cludiant.
- Gofynnir i ysgolion gefnogi'r holl rieni, disgyblion a staff a'u gwneud yn ymwybodol o God Ymddygiad Teithio Llywodraeth Cymru, a sicrhau bod cymorth cyson i orfodi ymddygiad da ar gludiant i'r ysgol. Mae'n ddefnyddiol i cynorthwywyr teithwyr a gyrwyr fod yn ymwybodol o'r modd y dylid ymdrin â chamymddygiad o ran y disgyblion hynny sydd efallai'n camymddwyn o ganlyniad i'w hanghenion penodol.
- Gofynnir i'r ysgolion sicrhau bod contractwyr yn ymwybodol o unrhyw drefniadau ynghylch dod ar y bws/oddi ar y bws neu drosglwyddo disgyblion, a bod hyn yn cael ei ddarparu hefyd i uned gludiant y cyngor. Gofynnir hefyd iddynt gynorthwyo i sicrhau nad yw mynedfeydd ysgolion yn cael eu rhwystro gan barcio amhriodol rhieni/staff ar amserau dechrau/gorffen yr ysgol.

- Dylai'r ysgolion sicrhau bod staff ar gael i dderbyn disgyblion i'r ysgol yn y bore a'u goruchwyllo'n gadael yn y prynhawn.
- O bryd i'w gilydd, bydd staff uned gludiant y cyngor yn gwneud archwiliadau ar gerbydau/gyrwywr a cynorthwywyr teithwyr cludiant i'r ysgol. Fodd bynnag, ni allant arsylwi trefniadau bob dydd. Gall ysgolion gynorthwyo drwy roi gwybod i uned gludiant y cyngor am, er enghraifft:
  - Gwasanaeth sy'n rhedeg yn hwyr yn barhaus
  - Cerbydau/cyfarpar annerbyniol
  - Cynorthwywyr teithwyr/gyrwywr
  - Gwasanaeth rhagorol / arferion da

## Noddiad